



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar  
gyfer Datblygu Gwledig  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
European Agricultural Fund for  
Rural Development  
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Glastir

## Grantiau Bach Glastir

Canllaw Ffotograffau â Geotag



Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru –  
Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru

2014-2020

# **Grantiau Bach Glastir – Canllaw Ffotograffau**

## **Contents**

**Cyflwyniad i Ffotograffau â Geotag**

**Beth yw ffotograff â geotag?**

**I beth mae angen ffotograff â geotag?**

**Sut mae rhoi geotag ar fy ffotograffau?**

Ffonau Android

iPhones ac iPads Apple

Ffonau Windows

Dyfeisiau eraill

**Pa ffotograffau â geotag sydd eu hangen?**

**Sut mae trosglwyddo ac arbed ffotograffau â geotag?**

Windows

Apple Mac

**Beth bydd Llywodraeth Cymru'n ei wneud â'r ffotograffau â geotag?**

**Sut mae llwytho fy lluniau geo-tag pan fyddaf yn cyflwyno fy nghais?**

**Enghreifftiau o ffotograffau**

## Cyflwyniad i Ffotograffau â Geotag

Bydd angen ffotograff â **geotag** arnoch **cyn** ac **ar ôl** cynnal gwaith cyfalaf fel tystiolaeth ichi allu hawlio Grant Bach Glastir. Ni fyddwn yn gallu talu'r grant ichi heb ffotograffau perthnasol â geotag.

Dylech arbed eich ffotograffau mewn lle hwylus a'u cyflwyno pan fyddwch yn hawlio Grant Bach Glastir.

### Beth yw ffotograff â geotag?

Ar ffotograff â geotag, mae gwybodaeth am lleoliad y llun wedi'i storio yn nata'r ffotograff. Bydd y rhan fwyaf o ffonau symudol sydd â chyswllt â'r rhyngwrwd a camera yn cofnodi cyfesurynnau GPS yn awtomatig. Maen nhw hefyd yn cofnodi dyddiad ac amser tynnu'r ffotograff.

### I beth mae angen ffotograff â geotag?

Byd staff Llywodraeth Cymru'n edrych ar amser a lleoliad y ffotograffau â geotag y byddwch wedi'u cyflwyno iddi ac yn cymharu hynny â'r wybodaeth yn eich contract Grantiau Bach Glastir. Drwy hynny, gallwn gadarnhau'ch hawliad a bod y gwaith cyfalaf wedi'i wneud fel y cytunwyd.

### Sut mae rhoi geotag ar fy ffotograffau?

Bydd bron pob ffôn symudol sydd â chyswllt â'r Rhyngwrwd a camera yn rhoi geotag ar ei ffotograffau.

*Noder:* ni fydd y lleoliad GPS i'w weld ar y ffotograff, mae'r adran Sut i weld nodweddion eich ffotograff yn egluro sut i gadarnhau bod gan eich ffotograff dag daearyddol.

Mae geotag yn golygu bod y ffôn symudol yn storio manylion lleoliad y ffoto yn ffeil y ffoto.

I wneud yn siŵr bod eich ffôn symudol wedi'i osod yn gywir, dilynwch y camau isod. Gallai'r camau a'r termau a ddefnyddir amrywio ychydig bach gan ddibynnu ar eich ffôn.

#### Ffonau Android

Mae'r rhan fwyaf o ffonau symudol yn defnyddio'r system gweithredu android. Mae ffonau Sony, Samsung, LG a HTC yn defnyddio android.

Yn gyntaf, gosodwch eich ffôn ichi allu defnyddio'r GPS (Global Positioning System) i gofnodi'ch lleoliad.

1. Ar eich prif sgrin, ewch i Settings (eicon y cog). Efallai y bydd angen ichi fynd i Applications neu Menu yn gyntaf.
2. Ewch i Location. Efallai bod hwn wedi'i restru ar ei ben ei hun neu o dan General Settings neu Privacy and Safety.
3. Gofalwch fod yr opsiwn Location ymlaen. Os gofynnir ichi, dewiswch High accuracy neu GPS.

Yn ail, gwnewch yn siŵr fod eich camera wedi'i osod i roi geotag ar eich ffotos.

1. Lansiwch ap y ffôn.

2. Pwyswch ar yr eicon Settings.
3. Gofalwch fod yr opsiwn Geotag / tag Location / GPS ymlaen.

### **iPhones ac iPads Apple**

1. Lansiwch yr ap Settings (eicon y cog) ar brif sgrin eich iPhone neu iPad.
2. Pwyswch ar Privacy.
3. Pwyswch ar Location Services a throi'r opsiwn ymlaen.
4. Pwyswch ar eicon y Camera.
5. Dewiswch 'While Using the App'.

Os ydych chi'n defnyddio iPhone 7 neu'n is, bydd angen i chi ddewis y gosodiadau canlynol hefyd:

1. Lansio'r app Gosodiadau
2. Tap ar Camera
3. Sicrhewch fod y Llun Cadw Normal yn cael ei toglo "On".

Os ydych chi'n defnyddio iPhone 8 neu'n uwch bydd angen i chi ddewis y gosodiadau canlynol hefyd:

1. Lansio'r app Gosodiadau
2. Tap ar Camera
3. Tap ar Fformatau
4. Dewiswch "Mwyaf Cydnaws".

### **Ffonau Windows**

1. Ar eich prif sgrin, pwyswch ar yr opsiwn neu'r eicon Settings (y cog)
2. Pwyswch ar Privacy
3. Pwyswch ar Location Service a throi'r opsiwn ymlaen.
4. Sgroliwch i lawr y rhestr o apiau o dan 'Choose apps that can use your precise location' a gwneud yn siŵr fod y Camera ymlaen.

### **Dyfeisiau eraill**

Bydd eich tabled neu'ch camera digidol hefyd yn gallu rhoi geotag ar eich ffotograffau os ydy'r GPS yn rhan annatod o'r ddyfais.

### **Pa ffotograffau â geotag sydd eu hangen?**

Tynnwch ffoto **cyn** ac **ar ôl** cynnal eich gwaith cyfalaf Grantiau Bach Glastir. **Gofalwch fod geotag ar bob ffotograff.**

Dylai'r ffoto 'cyn' ddangos cyflwr sylfaenol y lleoliad cyn i'r gwaith ddechrau. Efallai y bydd angen mwy nag un ffotograff i ddangos y safle yn ei gyfanrwydd.

Dylech dynnu'r ffotograffau 'ar ôl' o'r un manau a dangos y gwaith cyfalaf yn glir. Efallai y bydd angen mwy nag un ffotograff i ddangos bod y gwaith wedi'i wneud. Bydd angen ffotograffau â geotag o eitemau gwaith cyfalaf ategol hefyd, fel gathiau pren neu gafnau dŵr.

Does dim gwahaniaeth p'un a yw'r lluniau'n rhai 'portrait' neu 'landscape', cyn belled â'ch bod yn gallu gweld yr holl wybodaeth berthnasol.

Eich cyfrifoldeb chi yw dangos bod gennych ddigon o dystiolaeth i ddangos bod y gwaith rheoli neu'r buddsoddiad wedi'i wneud. Heb ddigon o dystiolaeth, efallai y bydd yna oedi cyn eich talu neu efallai na chewch eich talu o gwbl.

Lle medrwch, dylai'ch ffoto gynnwys hefyd:

- Nodwedd amlwg i gadarnhau cywirdeb y lleoliad. Er enghraifft, ffos, ffens, adeilad fferm, heol neu belyn telegraff.
- Polyn anelu (2m o uchder gyda bandiau 50cm o ddyfnder mewn coch a gwyn) neu rywbeth arall i ddangos graddfa. Er enghraifft, beic cwad neu gerbyd.

## **Sut mae trosglwyddo ac arbed ffotograffau â geotag?**

Trosglwyddwch eich ffotograffau â geotag i'ch cyfrifiadur neu liniadur yn unol â chyfarwyddiadau'ch dyfais. Gallech e-bostio'r ffoto atoch chi'ch hun o'ch ffôn symudol.

Mae'n bwysig iawn arbed eich ffotograffau mewn lle cofiadwy. Bydd angen ichi gyflwyno'ch ffotograffau 'cyn' ac 'ar ôl' fel rhan o'ch hawliad Grantiau Bach Glastir. Bydd eich hawliad yn annerbyniol heb y ffotograffau hyn.

Cofiwch enwi'ch ffotograffau'n ofalus, er mwyn ichi allu eu hadnabod yn rhwydd a'u cysylltu â'r prosiect priodol pan fyddwch yn lanlwytho'ch ffotograffau wrth hawlio Grant Bach Glastir. Er enghraifft, fe allech gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- ID y prosiect
- Enw'r prosiect
- Cymal a manylion y project

Efallai y dylech gynnwys y CRN hefyd os ydych yn paratoi hawliadau ar ran mwy nag un cwsmer.

Dyma enghraifft o ffeil wedi'i harbed: A0099999\_GSG001234\_CaePencochIsaf\_Arôl\_SiotLydan

Dylech arbed ffotograffau fel rhai jpeg a dylent fod ag eglurder o o leiaf 400 x 600 picselel.

## **Sut i weld nodweddion eich ffotograff**

Ar ôl lanlwytho'ch ffoto a'i arbed, gallwch weld beth yw eglurder y llun a gofalu bod manylion y lleoliad wedi'u cofnodi.

### **Windows**

Daliwch y fysell 'Alt' i lawr a phwyso 'Enter' neu gliciwch â botwm dde'r llygoden ar y ffotograff a dewis 'priodweddau/properties'.

## **Apple Mac**

Daliwch y fysell 'Command' i lawr a phwyswch y llythyren 'I'.

Bydd y ddau opsiwn yn dangos manylion ffeil y ffotograff dan sylw. Bydd y manylion hynny'n cynnwys eglurder y llun yn ogystal â'r cyfesurynnau GPS a phryd y tynnwyd y llun.

Gallwch fwydo cyfesurynnau'r GPS i'ch peiriant chwilio a chael gweld ar y map lle y cafodd y ffoto ei dynnu.

## **Sut mae llwytho fy lluniau geo-tag pan fyddaf yn cyflwyno fy nghais?**

Ar ôl i chi gyflwyno'ch ffurflen Hawliad Gwaith Cyfalaf mae angen i chi gyflwyno'r ffotograffau geo-tagiedig fel y gall Llywodraeth Cymru wirio'ch cais a sicrhau bod y Gwaith Cyfalaf wedi'i gwblhau fel y cytunwyd.

Gallwch wneud hyn trwy ddefnyddio'r swyddogaeth Llwytho Dogfen ar eich cyfrif RPW Ar-lein.

Bydd y sgrin uwchlwytho dogfennau yn dangos yr honiadau sydd ar gael i chi gyflwyno'ch ffotograffau geo-tag a bydd yn cynnwys manylion y contract, faint o ffotograffau sydd wedi'u huwchlwytho yn eu herbyn cyn ac ar ôl ac os ydych wedi cwblhau eich uwchlwytho.

- Cliciwch y botwm "Llwytho i fyny" wrth ymyl adrannau cyn ac ar ôl y contract i ychwanegu eich lluniau geo-tag.
- Cliciwch "Ychwanegu Ffeiliau" i agor ar borwr eich cyfrifiadur a dewis y lluniau perthnasol.
- Ar ôl i chi ddewis y llun gofynnol cliciwch "agored".
- Bydd ffeiliau sydd wedi'u hychwanegu'n llwyddiannus yn dangos gyda thic gwyrdd. Bydd ffotograffau aflwyddiannus yn dangos gyda chroes goch a rheswm pam na chafodd ei dderbyn.
- Cliciwch "Upload" i ychwanegu'r llun at eich cais.
- Ar ôl i chi ychwanegu'r holl luniau cyn ac ar ôl cliciwch "Mark as Complete". Os bydd angen i chi ychwanegu lluniau ychwanegol ar unrhyw adeg byddwch yn dal i allu gwneud hynny.

## **Beth bydd Llywodraeth Cymru'n ei wneud â'r ffotograffau â geotag?**

Ar ôl i chi lanlwytho'ch ffotograffau â geotag fel rhan o'ch hawliad Grantiau Bach Glastir, bydd staff Llywodraeth Cymru yn gallu edrych a yw'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau yn y lle cywir, yn unol â'ch contract.

## Enghreifftiau o ffotograffau

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ffotograffau 'cyn'. Maent yn darparu tystiolaeth dda oherwydd eu bod yn canolbwyntio ac yn cynnwys maint y gwaith cyfalaf sydd i fod i ddigwydd. Argymhellir cynnwys pwynt cyfeirio, fel coeden fawr neu adeilad.



Yn y llun 'cyn' uchod mae'r bin wedi cael ei ddefnyddio fel pwynt cyfeirio y gellir ei weld yn glir yn y llun 'ar ôl'.



Mae cynnwys cerbyd yn ddefnyddiol gan ei fod yn helpu staff Llywodraeth Cymru i ddeall graddfa'r gwaith sydd gennych mewn golwg.



Mae'r ffotograffau canlynol yn llai defnyddiol gan nad oes pwynt cyfeirio ynddyn nhw nac yn dangos hyd a lled y safle lle caiff y prosiect Gwaith Cyfalaf ei gwblhau.







Bydd angen ffotograffau ar Lywodraeth Cymru sy'n dangos safle'r gwaith cyfalaf.